## CYNGOR SIR YNYS MÔN

| | |
|---|---|
| **Pwyllgor:** | **Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol** |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | **28/07/11** |
| **Teitl yr Adroddiad:** | **Strategaeth Ymgysylltu â'r Gymuned** |
| **Pennaeth Gwasanaeth perthnasol:** | **Huw Jones** |
| **Deilydd Portffolio perthnasol:** | **Comisiynydd Mick Giannasi** |

## 1.0 Cyflwyniad

**1.1** Wrth symud y sefydliad yn ei flaen a gwella trefniadau llywodraethu corfforaethol, mae Aelodau wedi perchnogi'r flaenoriaeth ynghlwm â dinasyddion a chymunedau fel rhan greiddiol o gynllunio strategol yng Nghynllun Busnes Corfforaethol y Cyngor gogyfer 2011/12. Mae'r Cynllun ei hun yn anelu i fod yn fwy seiliedig ar ganlyniadau ac o'r herwydd, mae pwysigrwydd ymgysylltu â'r gymuned yn cael ei gydnabod fel elfen greiddiol i siapio blaenoriaethau i'r dyfodol. Bydd hyn yn sicrhau ein bod yn canolbwyntio ar ddarparu'r canlyniadau cywir i drigolion.

## 2.0 Strategaeth Ymgysylltu â'r Gymuned

**2.1** Yn Hydref, 2010 mabwysiadwyd Strategaeth Ymgysylltu â'r Gymuned a Chynllun Gweithredu atodol. Roedd hwn yn rhan o Gynllun Adfer y Cyngor a oruchwyliwyd gan Grŵp Llywio'r Adferiad. Adroddwyd ar gynnydd y Cynllun Gweithredu i'r Panel yn Ionawr, 2011.

**2.2** Fel rhan o'r cynllun gwaith a gyflwynwyd i Fwrdd y Comisiynwyr ar 20 Mehefin, 2011, mae adroddiad ar Strategaeth Ymgysylltu â'r Gymuned y Cyngor i'w gyflwyno ym Medi, 2011. Mae'r strategaeth hon wedi'i diwygio a chynnydd yn erbyn y Cynllun Gweithredu wedi'i ddiweddaru ymhellach. Mae'n cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor hwn er sylwadaeth a'i rymuso. Ceir manylion yn Atodiad 1 i'r adroddiad hwn.

**2.3** Dymunir tynnu sylw'r Pwyllgor i nifer o elfennau allweddol:

2.3.1 **Gwaith Cynllunio Strategol**

Bydd Bwrdd y Comisiynwyr yn ystyried adroddiadau ar Gynllunio Cymunedol a datblygiad y Cynllun Busnes Corfforaethol 3 Blynedd/strategaeth ariannol tymor canol yn eu cyfarfod ar 25 Gorffennaf.

2.3.2 **Amserlen Ymgynghori**

Mae amserlen ymgynghori yn cael ei datblygu i gefnogi'r gwaith hwn a sicrhau dull integredig o weithredu. Bydd hyn yn cael ei gefnogi gydag ymgysylltu â'r cyhoedd yn yr Hydref. Bydd y Comisiynwyr yn trefnu cyfres o gyfarfodydd corfforaethol gydag Aelodau a Swyddogion ym mis Awst a fydd yn canolbwyntio ar gynllunio corfforaethol ac ymgysylltu â'r cyhoedd i ddatblygu'r gwaith hwn ymhellach.

2.3.3 **Strwythur Ardal**

Mae trefniadau gogyfer ymgynghori ar sail ardal yn cael eu datblygu fel sail i gyfranogaeth ar y Cynllun Cymunedol gyda chymunedau lleol, gan gynnwys Cynghorau Tref a Chymuned.

2.3.4 **Adnewyddiad Democrataidd**

Elfen bwysig i'r Awdurdod yw'r pwyslais ar adnewyddiad democrataidd sydd yn cael ei blethu gyda'r gwaith ar Gynllunio Cymunedol. Darparwyd adroddiad cychwynnol i Fwrdd y Comisiynwyr ar 11 Gorffennaf, 2011.

2.3.5 **E-democratiaeth**

Yn dilyn sêl bendith Grŵp Llywio'r Adferiad, mae system e-democratiaeth newydd wedi'i bwrcasu sy'n galluogi'r Cyngor i gyhoeddi gwybodaeth ar y we, gan gynnwys cofnodion, agendas ac adroddiadau. Mae'r system hefyd yn cynnwys yr elfennau e-deisebu ac e-ymgynghori i hybu cyfranogaeth ac atebolrwydd. Bydd y system ar gael yn ystod y 3 mis nesaf.

2.3.6 **Cynyddu cydlynu ymgynghori a'r defnydd o adnoddau**

Fe adnabuwyd y maes ymgynghori gan y Bwrdd Gwasanaeth Lleol fel sail gogyfer un o'i Gytundebau Cyflenwi Lleol. Yn sgil hyn, comisiynwyd arolwg gwaelodlin gan Gwmni Opinion Research Services o'r arferion ymgynghori a phrosesau ar lefel partneriaethol gyda'r bwriad o sicrhau dull integredig, cost effeithiol o ddefnyddio adnoddau er mwyn osgoi dyblygu yn y maes. Byddai hyn yn gyfle i adnabod arfer da, diffyg mewn darpariaeth a chyfle i rannu adnoddau i greu model integredig ar gyfer yr ynys.

Cyflwynwyd argymhellion yr arolwg i'r Bwrdd Gwasanaeth Lleol ar 7 Mehefin, 2011 fel  a ganlyn:

- Hybu'r egwyddor o gynnal ymgynghoriadau partneriaethol themaol
- Cyd-lynu gweithgareddau ymchwil ac ymgynghori cydlynus ar draws y partneriaethau a sefydlu man canolog i'w cadw
- Ystyried sefydlu panel dinasyddion neu arolwg 'Omnibus'
- Comisiynu prosiectau ymchwil ar y cyd
- Meithrin sgiliau ymchwil a fframwaith dadansoddi canolog.

Mae Cynllun Gweithredu yn y broses o gael ei ddatblygu sefydlu i yrru'r gwaith hwn yn ei flaen.

Mae nifer o awdurdodau gyda swyddi dynodedig yn darparu cefnogaeth ddadansoddol ac i gydlynu'r prif weithgareddau ymgynghori gan gynnwys Paneli Dinasyddion.  Nid oes swydd ddynodedig yn Swyddfa'r Prif Weithredwr oherwydd toriadau.  Er bod hyn yn risg i gefnogi darpariaeth y Strategaeth, mae sgôp i weithio'n draws sector i wneud defnydd mwy effeithiol o adnoddau ac mae hyn wedi cael ei gydnabod gan bartneriaid y Bwrdd Gwasanaeth Lleol.  Mae hyn yn cyd-fynd gydag argymhellion Opinion Research Services.

Serch hynny, mae'n debygol y bydd gofynion ychwanegol ar gyllideb y Cyngor i gynnal ffrydiau gwaith ar ymgysylltu â'r cyhoedd i'r dyfodol a bydd angen adrodd ar hyn maes o law i'r Comisiynwyr.

### 2.3.7 Y Darlun Cenedlaethol

Wrth ddatblygu'r gwaith hwn ymhellach bydd sylw yn cael ei roi i'r darlun cenedlaethol, ac yn arbennig modelau arfer da y gellir eu datblygu'n lleol.  Yn ogystal gwneir defnydd o'r  Egwyddorion Cenedlaethol ar gyfer 'Ymgysylltu â'r Cyhoedd yng Nghymru' a gynhyrchwyd gan Cyfranogaeth Cymru – gweler Atodiad 2.

Yn ogystal, fel rhan o astudiaeth Cymru gyfan yn ystod 2010/11 gan Swyddfa Archwilio Cymru rhoddwyd sylw i Ymgysylltu â'r Cyhoedd o fewn y Cyngor. Mae'r Cyngor yn aros am adborth a fydd hefyd o gymorth i osod cyfeiriad i'w waith yn y maes hwn i'r dyfodol.

## 3.0 Argymhelliad

Gofynnir i'r Pwyllgor ddarparu sylwadau ar y strategaeth ddrafft a'u hafon ymlaen i Fwrdd y Comisiynwyr.

**CYNGOR SIR YNYS MÔN**

# Strategaeth Ymgysylltiad Cymunedol 2011-2013

## Cyd-destun Strategol

Pwrpas y strategaeth hon yw amlinellu'r amcanion a'r blaenoriaethau strategol ar gyfer ymgysylltiad cymunedol ac ymgynghori y bydd Cyngor Sir Ynys Môn yn gweithio i'w cyflawni yn ystod y ddwy flynedd nesaf. Nodir ynddi'r fframwaith cyffredinol ar gyfer yr Awdurdod wedi ei atgyfnerthu gan bwysigrwydd strategol darparu gwasanaethau i ddinasyddion a chymunedau yn ein Cynllun Busnes Corfforaethol. Ceir ynddi hefyd wybodaeth ynghylch sut y bydd y blaenoriaethau'n cael eu darparu, pwy fydd yn gyfrifol am hyn a sut y bydd cynnydd yn cael ei fonitro.

## Amcanion Strategol

Mae Fframwaith Ymgysylltiad Cyngor Sir Ynys Môn yn anelu at:

- Darparu dull cydlynol ar lefel gorfforaethol a phartneriaethol mewn perthynas ag ymgynghori, ymgysylltu, cyfathrebu a chyfranogi;

- Grymuso cymunedau, defnyddwyr ac unigolion i ddylanwadu ar flaenoriaethau a phenderfyniadau cyllidebol y Cyngor;

- Sicrhau bod anghenion y cymunedau a'r defnyddwyr yn gyrru rhaglenni yn eu blaenau i wella safon bywyd, y gwasanaethau a ddarperir a safonau'r gwasanaethau hynny;

- Cyfrannu tuag at sefydlu ymdeimlad mwy o gymuned a pherthyn a bod y Cyngor yn cael ei weld fel Cyngor Sir sy'n **gwrando ac sy'n hawdd cael ato.**

- Ychwanegu gwerth at y broses gwneud penderfyniadau yn y Cyngor trwy'r broses sgriwtini.

Mae'r gyrwyr allweddol canlynol yn atgyfnerthu'r amcanion strategol:

**Gyrwyr Allweddol**

**Llywodraethu ac Atebolrwydd**

- Mae ymgysylltu gyda'r gymuned a defnyddwyr gwasanaethau mewn perthynas â'n gwaith yn elfen allweddol o lywodraethu da i sicrhau atebolrwydd cyhoeddus cadarn.

- Yr angen i wella trefniadau llywodraethu corfforaethol y Cyngor yn dilyn yr arolygiad llywodraethu corfforaethol ym mis Gorffennaf 2009 lle nodwyd "nad oes unrhyw ddull cydlynol o sefydlu anghenion cymunedau'r Ynys drwy ymgysylltu gyda dinasyddion".

**Cynllunio Strategol**

- Bod yn sylfaen i gyfeiriad strategol y Cyngor, y modd y dyrennir adnoddau a nodi materion blaenoriaeth allweddol ar gyfer y gwasanaethau. Mae angen i hyn ddigwydd o fewn yr hinsawdd ariannol gyfredol gydag adnoddau'n prinhau.

- Parhau i ganolbwyntio ar ddull sy'n ymdroi o gwmpas y dinesydd wrth ailddylunio a darparu gwasanaethau a dull cynllunio busnes sy'n fwy seiliedig ar ganlyniadau.

- Yr angen i ddatblygu ymgysylltiad fel modd effeithiol o hyrwyddo dull cydlynol o gynllunio corfforaethol yn y Cyngor.

**Arweinyddiaeth Gymunedol**

- Hyrwyddo'r egwyddorion sylfaenol cynhwysol sydd ym Mesur Llywodraeth Leol Cymru 2009 a'r Ddeddf Cydraddoldebau 2010.

- Yr angen i'r Cyngor ailgysylltu gyda'i gymuned, i ddeall anghenion cyfredol y cymunedau lleol ac i ymgysylltu gyda a gwrando ar gymunedau, dinasyddion ac, yn y pen draw, geisio gwell canlyniadau.

- Yr angen i ddatblygu dull mwy cydlynol a gwneud defnydd mwy effeithiol o adnoddau ar draws sefydliadau partner drwy Bwrdd Gwasanaeth Lleol.

**Adnewyddiad Democrataidd**

- Yr angen i ymgysylltu gyda chymunedau i hyrwyddo adnewyddiad democrataidd sydd wedi cael ei nodi fel un o'r amcanion gwella allweddol yng Nghynllun Busnes Corfforaethol 2011-12. Er mwyn cynnal yr adferiad y mynnir arno gan Lywodraeth Cymru, mae'n bwysig fod pobl yn teimlo'n rhan o'r broses ddemocrataidd a'r broses o wneud penderfyniadau.

- Ychwanegu at yr ymdeimlad o ddylanwad a grymuso sifig a lleihau'r diffyg democrataidd.

**Sgriwtini a Throsolwg**

- Pwysigrwydd Ymgysylltiad Cymunedol i gefnogi datblygiad polisïau a gwneud penderfyniadau a sefydlu rhaglenni gwaith yn seiliedig ar dystiolaeth.

**Arfer Da gan gynnwys Cyfryngau Cymdeithasol**

- Gweithredu Egwyddorion Cenedlaethol y Cynulliad o ran ymgysylltiad cyhoeddus yng Nghymru ar lefel leol.

- Defnyddio gwasanaethau e-alluogi i hyrwyddo cyfleon o ran ymgysylltiad cymunedol.

**Y dull sy’n ymdroi o gwmpas y Dinesydd/y Gymuned**

I grynhoi, fel sefydliad, un o’n gwerthoedd allweddol a amlinellir yn Ethos Môn, ein Menter Rheoli newid yw canolbwyntio ar y dinasyddion a’r cymunedau. Wrth ddatblygu dull sy’n canolbwyntio ar y dinesydd, bydd y Cyngor yn ceisio:

- Datblygu rhaglenni a blaenoriaethau sy’n cyd-fynd ag anghenion dinasyddion lleol.
- Defnyddio profiadau/atborth cwsmeriaid i gefnogi’r gwaith o ailfodelu gwasanaethau.
- Gwella arweinyddiaeth gymunedol drwy ddeall dyheadau gwahanol y gwahanol gymunedau ac ymateb iddynt.
- Sicrhau bod ymrwymiad i ymgysylltiad yn ei strategaethau allweddol.
- Sicrhau bod y cysylltiadau a wneir gyda defnyddwyr gwasanaeth, unigolion a chymunedau yn defnyddio technoleg sy’n addas i’r pwrpas, sy’n gynaliadwy ac sy’n gost effeithiol.
- Sicrhau bod diwylliant mewnol y Cyngor yn canolbwyntio ar wella gwasanaeth a gwella canlyniadau i’n dinasyddion.

## Pwrpas y Strategaeth

Datblygwyd y strategaeth yn benodol i nodi a sefydlu mecanweithiau i sicrhau hygyrchedd a chynhwysiad ar gyfer yr holl gymunedau, defnyddwyr gwasanaeth ac unigolion. Mae’r Cynllun Gweithredu atodol yn amlinellu nifer o amcanion a nodau penodol a fydd yn cael eu cyflawni o fewn cyfnod amser y cytunwyd arno ac y mae’n hanfodol hefyd i’r broses o ddatblygu ymhellach Fframwaith Cynllunio Busnes Corfforaethol y Cyngor.

Mae hefyd yn cefnogi’r strategaethau lleol allweddol isod:

- **Rhaglen Ynys Ynni**
- 
- **Y Strategaeth Gymunedol**
- **Cynllun Diogelwch Cymunedol**
- **Y Strategaeth Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles**
- **Y Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc**
- **Y Cynllun Datblygu Lleol**

Mae'r strategaeth yn fodd o greu dull integredig i gefnogi'r gwaith o ddiweddaru/cyflawni'r cynlluniau allweddol hyn a bydd angen ei mireinio ymhellach yn wyneb y cynigion i resymoli'r cynllun.

**Dull y Cyngor o Ymgysylltu gyda Chymunedau**

Mae ymgysylltu gyda Chymunedau wrth wraidd democratiaeth effeithiol a rhaid canolbwyntio ar hyn ar bob lefel, o'r aelodau etholedig, sy'n gweithredu fel cynrychiolwyr etholedig y cymunedau lleol, rheolwyr ardal ac unedau darparu gwasanaeth.

Ymgysylltir gyda chymunedau yn tair ffordd isod:

- Ymgysylltu ar lefel gorfforaethol - bod yr holl ddinasyddion yn cael eu cynnwys mewn materion sy'n ymwneud â'r Ynys gyfan.
- Ymgysylltiad ar lefel gwasanaeth – cynnwys defnyddwyr gwasanaeth yn y materion hynny sy'n cael effaith arnynt.
- Ymgysylltiad sy'n cael ei yrru gan y gymuned – ymestyn allan i'r cymunedau ar faterion thematig sy'n cael effaith ar gymunedau unigol.

**Datblygu Dull sy'n seiliedig ar Ardaloedd Penodol**

Mae'r Cyngor a'i bartneriaid allweddol yn cydnabod potensial datblygu dull o ymgysylltu sy'n seiliedig ar ardaloedd penodol. Fel hyn, dygir cymunedau sydd â diddordebau cyffredin ynghyd i gynorthwyo'r broses o wneud penderfyniadau ar lefel leol. I gychwyn, defnyddir dalgylchoedd yr ysgolion uwchradd fel blociau adeiladu i ddatblygu'r dull hwn.

**Gweithgareddau ymgynghori**

Mae'r Cyngor yn ymgymryd â nifer o weithgareddau ymgynghori ynghylch gwasanaethau a chynigion ar gyfer newid. Mae'r rhain yn cynnwys:

Adolygiad o'r Gyllideb Flynyddol
Fforymau ymgynghori corfforaethol gyda defnyddwyr gwasanaeth allweddol / cynrychiolwyr o gymunedau lleol
Arolygon
Dialog gyda Chynghorau Tref a Chymuned
Fforymau gyda Phlant a Phobl Ifanc a Phobl Hŷn
Pwyllgorau Ardal – Trosedd ac Anrhefn, Digwyddiadau Cyhoeddus a Chyfarfodydd Cymunedol

## Amcanion Allweddol

Mae'r adran hon yn amlinellu'r amcanion a'r camau gweithredu allweddol a nodwyd gan y Cyngor o ran ymgysylltu â'r gymuned. Mae sawl blaenoriaeth allweddol dan bob amcan sy'n rhoi mwy o fanylion am y targedau cyflawni, amserlenni a phwy sy'n gyfrifol amdanynt. Amlinellir y rhain yn y Cynllun Gweithredu ar gyfer y Fframwaith Ymgysylltu â'r Gymuned.

## Nodi strwythur a mentrau cyfredol ar gyfer ymgysylltu â'r gymuned

Mae'r fframwaith hwn yn ceisio nodi'r strwythurau ymgysylltu cyfredol trwy:

- Gymryd i ystyriaeth ganfyddiadau archwiliad gwaelodlin a gomisiynwyd trwy'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol o'r gweithgareddau ymgynghori cyfredol a'r prosesau a gynhelir gan bartneriaid neu sefydliadau;
- cynhyrchu cronfa ddata cydranddeiliaid o gyrff ac unigolion allweddol yr ymgynghorir â nhw.

## Darparu mecanweithiau darparu effeithiol i gefnogi'r fframwaith

Mae'n bwysig bod y mecanweithiau darparu a ddewisir yn gost effeithiol ac yn gynaliadwy ac nad ydynt yn dyblygu. Mae'r fframwaith hwn yn ceisio datblygu mecanweithiau darparu effeithiol trwy:

Defnyddio Grŵp Swyddogion Polisi (trawsdoriad o swyddogion sy'n cynorthwyo partneriaethau / meysydd polisi allweddol) i:

- adolygu strwythurau cyfredol, gwneud y defnydd gorau o'r fforymau cyfredol a chael gwared ar ddyblygu (bydd hyn yn cymryd i ystyriaeth drefniadau ymgynghori Rhaglen Ynys Ynni dros y ddwy flynedd nesaf);
- adolygu arferion gorau ac argymell mecanweithiau darparu cryf.

## Asesu capasiti corfforaethol, anghenion hyfforddi ac adnoddau

Bydd y fframwaith hwn yn sicrhau bod y Cyngor fel sefydliad yn addas i'r pwrpas i gefnogi ei fframwaith ymgynghori trwy:

- cynyddu a defnyddio capasiti ac arbenigedd corfforaethol trwy hyfforddiant priodol i gefnogi'r rhaglen waith;

- sicrhau bod systemau technoleg gwybodaeth briodol ar gael i gefnogi'r rhaglen waith;

- nodi cyfleon ar gyfer datblygu pellach.

## Sicrhau bod trefniadau ymgysylltu wedi'u sefydlu'n gadarn yn niwylliant y Cyngor

Bydd y fframwaith hwn yn sicrhau bod trefniadau ymgysylltu'r Cyngor wedi'u sefydlu'n gadarn yn ei ddiwylliant trwy:

- sicrhau bod Aelodau Etholedig a staff yn ymwybodol o bwysigrwydd prosiectau ymgysylltu gwirioneddol deuffordd;

- rhoi adborth ar ymgysylltu i'r rheini yr ymgynghorwyd â nhw gan gynnwys gwybodaeth am newidiadau sy'n codi'n uniongyrchol o ymgysylltu;

- rhoi canllawiau ar y safonau a'r gofynion y mae'n rhaid cwrdd â nhw trwy ymgysylltu ar draws gwasanaethau;

- rhoi cyfleon i staff gyfleu barn ar amryw o bynciau mewn perthynas â gwaith y Cyngor.

**Datblygu'r fframwaith ymgysylltu ar lefel partneriaeth**

Datblygu fframwaith ymgysylltu'r Cyngor yw dechrau proses ddatblygu hir i roi sylw i faterion ymgysylltu mewn dull integredig. Bydd Bwrdd Gwasanaethau Lleol Ynys Môn yn adeiladu ar y gwaith trwy ei gytundeb Darparu Lleol:

- creu cynllun gweithredu sy'n seiliedig ar argymhellion archwiliad gwaelodlin o brosesau ymgysylltu a gomisiynwyd i gael gwared ar ddatblygu a gwneud defnydd mwy effeithiol o adnoddau;
- datblygu rhaglen ymgynghori ar y cyd a chreu Fframwaith Ymgysylltu â'r Gymuned ar gyfer Ynys Môn.

**Nodi cyfleon ar gyfer datblygu pellach**

Bydd trafodaethau parhaus gyda chymunedau yn nodi ffyrdd ymlaen o ran datblygu dulliau ymgysylltu sy'n cwrdd ag anghenion cymunedau eu hunain. Bydd anghenion esblygol y cymunedau yn rhoi pwyslais penodol ar ymgysylltu gyda lleiafrifoedd ethnig a grwpiau sy'n anodd i'w cyrraedd.

**Datblygu, monitro, gwerthuso ac adolygu cynllun gweithredu ar gyfer ymgysylltu**

Mae'r Cynllun Gweithredu yn gosod allan yr amcanion tymor byr a chanol ar gyfer y maes a chyfrifoldeb y Pwyllgor Gwaith a'r Grŵp Llywio Adferiad fydd monitro cynnydd.

## Beth yw Ymgysylltu?

Mae'r ymadroddion ymgynghori â'r gymuned, cyfranogiad ac ymgysylltu yn cael eu diffinio'n wahanol gan wahanol sefydliadau ac unigolion ac yn aml maent yn golygu'r un peth.

I bwrpas y strategaeth hon mae ystyr pendant i bob un o'r ymadroddion uchod ac mae cyfranogiad a chynnwys yn cael eu diffinio fel camau ar y ffordd i ymgysylltu.

**Ymgynghori** - yn bwysig o ran sefydlu beth yw barn y cyhoedd yn gyffredinol a gellir ei ddiffinio, i bwrpas y strategaeth ymgysylltu hon, fel cynnig nifer o opsiynau a gwrando ar yr atborth a gafwyd.

**Cynnwys** – yn golygu cynnwys y gymuned mewn sawl ffordd, gall dechrau gyda'r gymuned neu gyda'r rhaglenni sy'n cychwyn y tu allan i'r gymuned.

**Cyfranogiad** – pobl yn bartneriaid gweithredol yn y gwaith o adfywio cymunedau a chyfrannu at a rhannu yn y penderfyniadau sy'n cael effaith ar eu bywydau. Dylai cyfranogiad sicrhau bod gan bobl elfen o rym a rheolaeth yn y prosesau y maent yn rhan ohonynt.

**Ymgysylltu** – sef trafodaeth barhaus a datblygu a chynnal perthnasau rhwng cymunedau a sefydliadau lle mae penderfyniadau yn cael eu rhannu ac yn seiliedig ar gyd-ddealltwriaeth sy'n aeddfedu. Mae diddordebau gwahanol yn penderfynu gyda'i gilydd beth sydd orau ac yn ffurfio partneriaeth i geisio ei gyflawni.

**CYNLLUN GWEITHREDU STRATEGOL YMGYSYLLTU CYNGOR SIR YNYS MÔN**

**CYNLLUN GWEITHREDU TYMOR BYR – 01/09/10-31/3/11**
**(yn seiliedig ar wybodaeth a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Gwaith ym mis Hydref 2010)**

| | Blaenoriaeth | Gweithredu | Deilliannau | Amser | Arwain | Cynnydd hyd yma |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 1.1. | **Gwneud penderfyniadau gwybodus ar gyfeiriad y daith** | Ymuno â'r Sefydliad Ymgynghori | Derbyn cyfarwyddyd arbenigol ar ymgynghori a dysgu esiampl o arfer dda | Erbyn 30/6/10 (gwnaed) | Swyddfa'r Rheolwr-gyfarwyddwr | √ Cyflawnwyd y Targed |
| 1.2. | **Cynhyrchu gweledigaeth lefel uchel i'r Cyngor a rhaglen waith allweddol** | Ymgynghori gyda'r Pwyllgor Gwaith / Tîm Rheoli i gytuno ar gyfeiriad clir i daith y Cyngor | Cynhyrchu Cynllun Corfforaethol i gefnogi'r weledigaeth | Erbyn 1/7/10 (gwnaed) | Swyddfa'r Rheolwr-gyfarwyddwr | Cymeradwywyd y Cynllun Busnes yng Ngorffennaf 2010<br>Gwaith adolygu pellach wedi'i gwblhau fel rhan o'r Cynllun Busnes ar gyfer 2011-12 |
| 1.3. | **Datblygu peirianwaith darparu effeithiol i gefnogi'r fframwaith**<br><br>Cynhyrchu rhaglen ymgynghori integredig dros dro | Creu rhaglen ymgynghori traws bartneriaeth i ymgynghori ar strategaethau allweddol sydd angen eu hadolygu erbyn 1/4/11 | Osgoi dyblygu a hyrwyddo gweithio cydlynol | Erbyn 31/10/10 | Swyddfa'r Rheolwr-gyfarwyddwr /Grŵp Swyddogion Polisi | Trafodaeth gychwynnol yn y Pwyllgor Gwaith Anffurfiol/GAS 13/10/10 gwaith yn mynd rhagddo<br>Dull cydlynol o ymgynghori ar gynlluniau allweddol i'w ddatblygu o gwmpas y Fforymau Ardal i hyrwyddo arweinyddiaeth gymunedol |

| | Blaenoriaeth | Gweithredu | Deilliannau | Amser | Arwain | Cynnydd hyd yma |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 1.4. | **Nodi mentrau a strwythurau ymgysylltu sy'n bodoli**<br><br>Awdit gwaelodlin | Comisiynu awdit gwaelodlin trwy'r BGLI o brosesau a gweithgareddau ymgynghori presennol wnaed gan Fudiadau Partner | Gwella ymgynghoriad trwy agwedd aml-asiantaethol gydlynol i wneud defnydd mwy effeithiol o adnoddau ac osgoi dyblygu | Adrodd i'r Bwrdd Gwasanaeth Lleol yn Rhagfyr, 2010 | Trwy raglen waith y BGLI | Cyflwynwyd yr argymhellion i'r BGLI ar 7/6/11 |
| 1.5. | **Asesu capasiti corfforaethol, anghenion hyfforddi ac adnoddau**<br><br>Nodi capasiti corfforaethol | Ailsgopio swyddi presennol i gryfhau capasiti corfforaethol er mwyn sicrhau darparu'r Fframwaith Ymgysylltu | Sicrhau bod capasiti staffio digonol i gyfarfod â'r gofynion gwaith | Erbyn 30/12/10 | Pennaeth Gwasanaeth - Polisi | Dim arian ar gael i benodi Swyddog Ymgynghori penodol a hyn o bosibl yn achosi risg. |
| 1.6. | Rhwydwaith o Fforymau Ardal | Creu rhwydwaith o Fforymau Ardal i gryfhau'r ddeialog gyda chymunedau lleol | Cynyddu'r ddealltwriaeth am anghenion lleol i fwydo gwybodaeth i benderfyniadau ar ddarparu gwasanaeth a hyrwyddo Arweinyddiaeth Gymunedol, dulliau sy'n canolbwyntio ar y Dinesydd ac Adnewyddiad Democrataidd | 31/12/10 | Swyddfa'r Rheolwr-gyfarwyddwr | Fforymau ardal i bwrpas ymgynghori yn seiliedig ar ddalgylchoedd y 5 ysgol uwchradd wrthi'n cael eu sefydlu i gefnogi ymgynghori ar gynlluniau strategol allweddol. Trefnir i'r rhain gyfarfod yn ystod Hydref 2011 a byddant yn cael eu datblygu ymhellach yn ystod 2011/12 |

| | **Blaenoriaeth** | **Gweithredu** | **Deilliannau** | **Amser** | **Arwain** | **Cynnydd hyd yma** |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | a bydd cyswllt rhyngddynt a'r gwaith ar Gynlluniau Strategol. |
| 1.7 | Sioe deithiol 'Holi'r Pwyllgor Gwaith | Adolygu fformat amlder y digwyddiadau | Gwella atebolrwydd cyhoeddus | 30/10/10 | Swyddfa'r Rheolwr-gyfarwyddwr | Cynhaliwyd sioeau teithiol ym mis Ionawr 2011 i gefnogi'r ymgysylltiad ar y strategaeth gyllidebol. Bydd y Fforymau Ardal yn disodli'r sioeau teithiol hyn. |

**CYNLLUN GWEITHREDU TYMOR CANOL – 1/4/11-31/3/12**
**(yn seiliedig ar wybodaeth a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Gwaith ym mis Hydref 2010 ond gyda ffocws ychwanegol ar Adnewyddiad Democrataidd)**

| | Blaenoriaeth | Gweithredu | Deilliannau | Amser | Arwain | Cynnydd hyd yma |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 1.1. | **Nodi'r mentrau ar y strwythurau ymgysylltu sy'n bodoli**<br><br>Cynhyrchu bas-data cydranddeiliaid | Creu bas-data lefel partneriaeth o ymgynghorwyr allweddol<br><br>Cynhyrchu rhaglen ymgynghori integredig yn flynyddol | Osgoi dyblygu a hyrwyddo gweithio'n gydlynol | Erbyn 30/6/11<br><br>Erbyn 1/4/11 | Swyddfa'r Prif Weithredwr | Y bas-data wedi'i gwblhau.<br><br>Y rhaglen ymgynghori wedi'i chwblhau. Mae angen cysylltu hyn gydag ymestyniad y system wybodaeth Modern Gov |
| 1.2. | **Darparu peirianwaith ddarparu effeithiol i gefnogi'r fframwaith**<br><br>Datblygu fframwaith ymgysylltu ar lefel partneriaeth | Ystyried canfyddiadau'r awdit gwaelodlin o ymarfer ymgynghori trwy'r BGLI ac argymhellion i wella cydlyniad arferion ymgynghori ar draws sectorau. | Hyrwyddo gweithio cydlynol ac osgoi dyblygu adnoddau / blinder ymgynghori. | Erbyn 31/06/11 | Drwy Raglen Waith y BGLI | Rhaglen waith wrthi'n cael ei datblygu ar hyn o bryd. Adroddiad ar gynnydd ym mis Medi 2011 |
| 1.3. | **Datblygu peirianwaith darparu effeithiol i gefnogi'r fframwaith**<br><br>Datblygu'r We a thechnolegau eraill fel peirianwaith ymgynghori | Ymestyn y ddarpariaeth o ffurfiau electronig sydd ar gael trwy'r wefan | Rhoi sianelau mynediad i ymgynghori ychwanegol i gydranddeiliaid | Erbyn 30/9/11 | Pennaeth Gwasanaeth TG | Bydd gwefan ddiwygiedig wedi ei chwblhau ym mis Gorffennaf 2011. |

| | Blaenoriaeth | Gweithredu | Deilliannau | Amser | Arwain | Cynnydd hyd yma |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Cynnal cynllun peilot ar Facebook<br><br>Defnyddio Digi-TV i godi ymwybyddiaeth am ymarferion ymgynghori | | | | Cyfryngau cymdeithasol, h.y. Facebook yn cael eu defnyddio gan y cyngor fel sianel fynediad ers Ebrill 2011 ac mae hyn wedi cael cyhoeddusrwydd yn llythyr newyddion y Cyngor (Gorffennaf 2011).<br><br>Y System Gwybodaeth Rheoli Modern Gov wedi cael ei phwrcasu a bydd yn cael ei chyflwyno yn ystod y 3 mis nesaf i hyrwyddo e-wasanaethau (gan gynnwys e-ymgynghori ac e-ddeisebu). |
| 1.4. | **Asesu capasiti corfforaethol, anghenion hyfforddi ac adnoddau**<br><br>Datblygu sgiliau a chapasiti o fewn y sefydliad i gefnogi rhaglen waith strategol<br><br>**Nodi cyfleoedd ar gyfer datblygu pellach** | Datblygu sgiliau staff trwy hyfforddiant ac adnoddau'n cael eu darparu gan y Sefydliad Ymgynghori | Sicrhau bod gan y mudiad y sgiliau angenrheidiol i gyflawni'r canlyniadau | Erbyn 31/12/11 | Pennaeth Gwasanaeth – Polisi/Adain TG | Mae hwn yn faes gwaith sy'n parhau i fod angen sylw |

| | Blaenoriaeth | Gweithredu | Deilliannau | Amser | Arwain | Cynnydd hyd yma |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 1.5 | **Sicrhau bod Ymgysylltu yn rhan sylfaenol o ddiwylliant y Cyngor**<br><br>Codi ymwybyddiaeth Aelodau Etholedig o bwysigrwydd gwaith ymgynghori | Cynnal sesiynau ymwybyddiaeth i gefnogi'r Rhaglen Datblygu Sgriwtini | Prif lifo ymgynghori i raglen waith | gwnaed – Gorffennaf, 2010<br>erbyn 1/10/10 | Pennaeth Sgriwtini Dros Dros/Rheolwr Polisi a Strategaeth | Cyfarfod ar y cyd rhwng y Comisiynwyr, Prif Weithredwr, Cyfarwyddwyr Corfforaethol a Phenaethiaid Gwasanaeth ar 1/8/11 i drafod ymgynghori o fewn y maes sgriwtini. |
| | Codi ymwybyddiaeth staff o bwysigrwydd ymgynghori a safonau arfer dda<br><br>Darparu cyfleoedd i staff fedru rhoi eu safbwyntiau | Llunio cyfarwyddyd arfer dda ar ymarferion ymgynghori ar y fewnrwyd<br><br>Cynnal arolwg staff blynyddol | Sicrhau bod safonau cyson o ddarparu trwy'r Cyngor cyfan<br><br>Defnyddio data gwaelodlin i gefnogi'r broses o adolygu rheolwyr | parhaol | Rheolwr Polisi a Strategaeth<br><br>Swyddfa'r Prif Weithredwr | Darperir canllawiau a byddant ar gael ar y mewnrwyd ym mis Medi 2011.<br><br>Mae hwn yn fater a drafodwyd ymhellach yn y Grŵp Arweinyddiaeth Strategol. |
| 1.6 | Arweiniad Cymunedol<br><br>Cryfhau a ffurfioli perthnasau gyda Chynghorau Tref a Chymuned | Ailsgopio'r swydd bresennol i weithredu fel Swyddog Cyswllt gyda Chymunedau Tref / Cymuned<br><br>Adolygu perthnasau gyda Chynghorau Tref a Chymuned a gweithredu'r argymhellion arfer | Gwella'r ddeialog gyda Chynghorau Tref a Chymuned | 1/4/11 | Swyddfa'r Prif Weithredwr | Swyddog penodol wedi ei glustnodi yn Swyddfa'r Prif Weithredwr.<br><br>Cyfarfod gyda Chlercod Cynghorau Tref a Chymuned ym mis Medi 2011 i drafod cryfhau cysylltiadau. |

| | Blaenoriaeth | Gweithredu | Deilliannau | Amser | Arwain | Cynnydd hyd yma |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | dda wnaed gan LICC yn ‘Cymuned a Rennir’ (Adeiladu Perthynas â Siartr i Awdurdodau Unedol a Chynghorau Tref a Chymuned- 2008) | | | | |
| 1.7 | Adnewyddiad Democrataidd | Darparu’r Strategaeth Adnewyddiad Democrataidd | Gwella ymgysylltiad cyhoeddus o ran gwneud penderfyniadau | Awst 2011 ymlaen | Swyddfa’r Prif Weithredwr | Cyflwynwyd adroddiad cychwynnol i’r Bwrdd Comisiynwyr ym Mehefin 2011 |



# NATIONAL PRINCIPLES OF PUBLIC ENGAGEMENT IN WALES

# EGWYDDORION CENEDLAETHOL AR GYFER YMGYSYLLTU Â'R CYHOEDD YNG NGHYMRU

Cyfranogaeth Cymru
Participation Cymru
Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

## 1. Engagement is effectively designed to make a difference

Engagement gives a real chance to influence policy, service design and delivery from an early stage.

### Guidance notes:

- Be clear from the start as to whether engagement is needed or not.
- Being clear about what can and can't be achieved is important from the very beginning.
- Engagement may tell us that change is not needed at this time.
- Measuring the outcomes or results of the engagement process is important to show how it has made a difference.

## 1. Cynllunnir yr ymgysylltu'n effeithiol i wneud gwahaniaeth

Mae ymgysylltu'n rhoi gwir gyfle i ddylanwadu ar bolisïau, ar gynllunio gwasanaethau ac ar gyflwyno gwasanaethau o gyfnod cynnar.

### Nodiadau cyfarwyddyd:

- Rhaid bod yn glir o'r dechrau ynghylch a oes angen ymgysylltu ai peidio.
- Mae bod yn glir ynghylch beth ellir ac na ellir ei gyflawni'n bwysig o'r dechrau un.
- Gall ymgysylltu ddweud wrthym nad oes angen newid ar hyn o bryd.
- Mae mesur canlyniadau neu allbynnau'r broses ymgysylltu'n bwysig er mwyn dangos sut mae wedi gwneud gwahaniaeth.

## 2. Encourage and enable everyone affected to be involved, if they so choose

The people affected by an issue or change are included in opportunities to engage as an individual or as part of a group or community, with their views both respected and valued.

### Guidance notes:

- Engagement means giving people the chance to be involved. It is a matter of choice.
- Care should be taken to make sure that anyone who may have an interest in taking part is identified.
- Different groups of people can be contacted through many community and special interest groups that already exist.

## 2. Annog a galluogi pawb a effeithir i gymryd rhan, os ydynt yn dewis hynny

Cynhwysir y bobl a effeithir gan fater neu newid mewn cyfleoedd i ymgysylltu fel unigolion neu fel rhan o grŵp neu gymuned, ac mae eu safbwyntiau'n cael eu parchu a'u gwerthfawrogi.

### Nodiadau cyfarwyddyd:

- Mae ymgysylltu'n golygu rhoi cyfle i bobl gymryd rhan. Mater o ddewis ydyw.
- Dylid bod yn ofalus er mwyn sicrhau y tynnir sylw at unrhyw un sydd â diddordeb mewn cymryd rhan.
- Gellir cysylltu â gwahanol grwpiau o bobl drwy gyfrwng nifer o grwpiau cymunedol a grwpiau diddordeb arbennig sydd eisoes yn bodoli.

## 3. Engagement is planned and delivered in a timely and appropriate way

The engagement process is clear, communicated to everyone in a way that's easy to understand within a reasonable timescale, and the most suitable method/s for those involved is used.

## 3. Cynllunnir a chyflwynir yr ymgysylltu mewn ffordd amserol a phriodol

Mae'r broses ymgysylltu'n glir ac yn cael ei chyfathrebu i bawb mewn ffordd hawdd i'w deall ac o fewn amserlen resymol. Hefyd, defnyddir y dull/iau mwyaf addas ar gyfer y rhai sy'n cymryd rhan.

## Guidance notes:

- There are many levels of engagement and the most suitable should be decided upon before any engagement activity is planned.
- A varied range of methods is available to match people's different preferences and abilities to take part.

## Nodiadau cyfarwyddyd:

- Ceir sawl lefel o ymgysylltu a dylid penderfynu ar yr un fwyaf addas cyn cynllunio unrhyw weithgarwch ymgysylltu.
- Mae ystod amrywiol o ddulliau ar gael i gyfateb i wahanol hoffterau a galluoedd pobl i gymryd rhan.

# 4. Work with relevant partner organisations

Organisations should communicate with each other and work together wherever possible to ensure that people's time is used effectively and efficiently.

## Guidance notes:

- Before beginning an engagement process it is important to check that your organisation or a partner organisation does not already have the information you need.
- A number of Local Service Boards have developed joint databases of consultation and engagement work so that they can work more effectively with the public.
- If public and third sector bodies work closely together the on-going engagement process will be far more effective.

# 4. Gweithio gyda sefydliadau partner perthnasol

Dylai sefydliadau gyfathrebu â'i gilydd a chydweithio lle bo modd er mwyn sicrhau bod amser pobl yn cael ei ddefnyddio'n effeithiol ac yn effeithlon.

## Nodiadau cyfarwyddyd:

- Cyn dechrau ar broses ymgysylltu, mae'n bwysig gwneud yn siŵr nad yw'r wybodaeth rydych ei hangen gan eich sefydliad neu sefydliad partner eisoes.
- Mae nifer o Fyrddau Gwasanaeth Lleol wedi datblygu basau data ar y cyd o waith ymgynghori ac ymgysylltu, fel eu bod yn gallu gweithio'n fwy effeithiol â'r cyhoedd.
- Os bydd cyrff cyhoeddus a chyrff y trydydd sector yn cydweithio'n agos, bydd y broses ymgysylltu parhaus yn llawer mwy effeithiol.

# 5. The information provided will be jargon free, appropriate and understandable

People are well placed to take part in the engagement process because they have easy access to relevant information that is tailored to meet their needs.

## Guidance notes:

- Making use of 'easy read' information available in a variety of formats e.g. large print, audio, DVD.
- To make sure that information is available in Welsh and English as well as other ethnic minority languages.
- To make sure that information is culturally and religiously sensitive.
- Also important not to over burden people with irrelevant information.

# 5. Ni fydd unrhyw jargon yn rhan o'r wybodaeth a ddarperir a bydd yn briodol ac yn hawdd i'w deall

Mae pobl mewn sefyllfa dda i gymryd rhan yn y broses ymgysylltu oherwydd mae gwybodaeth berthnasol sydd wedi'i haddasu i ddiwallu eu hanghenion ar gael iddynt yn hwylus.

## Nodiadau cyfarwyddyd:

- Gwneud defnydd o wybodaeth 'hawdd i'w darllen' sydd ar gael mewn ffurfiau amrywiol e.e. print mawr, sain, DVD.
- I sicrhau bod yr wybodaeth ar gael yn y. Gymraeg ac yn Saesneg, yn ogystal â mewn ieithoedd ethnig lleiafrifol eraill.
- I sicrhau bod yr wybodaeth yn sensitif yn ddiwylliannol ac yn grefyddol.
- Mae hefyd yn bwysig peidio â rhoi gormod o faich ar bobl o ran gwybodaeth amherthnasol.

## 6. Make it easier for people to take part

People can engage easily because any barriers for different groups of people are identified and addressed.

### Guidance notes:

- All of us can experience barriers to taking part depending on the issue and the situation. Any barriers for different people (including the professionals involved) should be identified for each circumstance and reasonable steps taken to overcome them.
- Organisers of engagement activities should be aware of and address typical barriers such as different languages, sight or hearing impairment, disability, transport access etc. as well as more specific needs and preferences whether cultural, LGB or other.
- Participants should have the opportunity to identify issues they feel are barriers to their involvement rather than professionals/ organisers alone.
- Many groups of people with particular needs or preferences will need specific approaches and opportunities to engage them, as well as the opportunity to be involved in mainstream engagement.

## 6. Ei gwneud yn haws i bobl gymryd rhan

Gall pobl ymgysylltu'n hawdd oherwydd mae unrhyw rwystrau i wahanol grwpiau o bobl yn cael eu datgan ac yn cael sylw.

### Nodiadau cyfarwyddyd:

- Gall pob un ohonom brofi rhwystrau'n ein hatal rhag cymryd rhan, gan ddibynnu ar y mater a'r sefyllfa. Dylid datgan unrhyw rwystrau ar gyfer gwahanol bobl (yn cynnwys y gweithwyr proffesiynol cysylltiedig) ar gyfer pob amgylchiad a dylid cymryd camau rhesymol i'w goresgyn.
- Dylai'r rhai sy'n trefnu'r gweithgareddau ymgysylltu fod yn ymwybodol o rwystrau nodweddiadol, a rhoi sylw iddynt, fel gwahanol ieithoedd, nam ar y golwg neu'r clyw, anabledd, argaeledd trafnidiaeth ac ati, yn ogystal ag anghenion a hoffterau mwy penodol, boed yn ddiwylliannol, pobl sy'n lesbiaid, yn hoyw neu'n ddeurywiol neu arall.
- Dylai'r cyfranogwyr gael cyfle i ddatgan y materion sy'n teimlo fel rhwystrau'n eu hatal rhag cymryd rhan, yn hytrach na'r gweithwyr proffesiynol/ trefnyddion yn unig.
- Ar gyfer y grwpiau niferus o bobl ag anghenion neu hoffterau arbennig, bydd raid wrth ddulliau a chyfleoedd penodol i'w hymgysylltu, yn ogystal â chyfle i gymryd rhan mewn ymgysylltu prif ffrwd.

## 7. Enable people to take part effectively

Engagement processes should try to develop the skills, knowledge and confidence of all participants.

### Guidance notes:

- Engagement is not just about getting people's views on a specific issue.
- Engagement is part of developing people's ability to take part in community and political activities; approaches and methods of engagement should try to make engagement a positive experience in terms of building skills, knowledge and confidence.
  (See 'Values and Principles, p7, National Strategic Framework for Community Development in Wales)

## 7. Galluogi pobl i gymryd rhan yn effeithiol

Dylai'r prosesau ymgysylltu ceisio datblygu sgiliau, gwybodaeth a hyder y cyfranogwyr i gyd.

### Nodiadau cyfarwyddyd:

- Nid dim ond ceisio barn pobl am bwnc penodol mae ymgysylltu'n ei olygu.
- Mae ymgysylltu'n rhan o ddatblygu gallu pobl i gymryd rhan mewn gweithgareddau cymunedol a gwleidyddol; dylai'r dulliau o ymgysylltu geisio gwneud yr ymgysylltu'n brofiad cadarnhaol o ran meithrin sgiliau, gwybodaeth a hyder.
  (Gweler 'Gwerthoedd ac Egwyddorion, t7, Y Fframwaith Strategol Cenedlaethol ar gyfer Datblygu Cymunedol yng Nghymru)
- Deallir na fydd ymgysylltu bob amser yn gadarnhaol o ran rhoi safbwynt cyfranogwr ar

- It is understood that engagement will not always be positive in terms of a participant's view being put into practice.
- This does not just apply to ongoing engagement over a long period; experience of a single focus group can be confidence building or undermining for example.
- The principle applies to professionals as well as to community participants. Many public services professionals are not trained or skilled to be effective facilitators.

waith.

- Nid dim ond i ymgysylltu parhaus dros gyfnod hir o amser mae hyn yn berthnasol; er enghraifft, gall profiad grŵp ffocws unigol feithrin neu danseilio hyder.
- Mae'r egwyddor yn berthnasol i weithwyr proffesiynol ac i gyfranogwyr cymunedol. Ceir llawer o weithwyr proffesiynol yn y gwasanaethau cyhoeddus nad ydynt wedi'u hyfforddi nac yn fedrus i fod yn hwyluswyr effeithiol.

## 8. Engagement is given the right resources and support to be effective

Appropriate training, guidance and support are provided to enable all participants to effectively engage, including both community participants and staff.

### Guidance notes:

- Ineffective, or even negative, experiences of engagement are often because organisations and staff concerned try to short cut engagement to use less staff time and money.
- Good management and leadership within organisations are crucial if effective engagement is to be carried out.
- It takes time, people and resources to reach out to participants, make engagement accessible and informed, and provide a range of ways for people to express their views or decisions.

## 8. Rhoddir yr adnoddau a'r gefnogaeth briodol i ymgysylltu er mwyn iddo fod yn effeithiol

Darperir hyfforddiant, cyfarwyddyd a chefnogaeth briodol er mwyn galluogi'r cyfranogwyr i gyd i ymgysylltu'n effeithiol, yn cynnwys cyfranogwyr cymunedol a staff.

### Nodiadau cyfarwyddyd:

- Ceir profiadau aneffeithiol, neu negyddol hyd yn oed, mewn perthynas ag ymgysylltu oherwydd bod sefydliadau yn aml iawn, a'r staff dan sylw, yn ceisio torri'n ôl ar ymgysylltu er mwyn defnyddio llai o amser y staff ac arian.
- Mae rheoli ac arwain da mewn sefydliadau'n hanfodol os am sicrhau ymgysylltu effeithiol.
- Mae angen amser, pobl ac adnoddau er mwyn estyn allan at gyfranogwyr a gwneud ymgysylltu'n hwylus a phriodol, a darparu amrywiaeth o ffyrdd i bobl fynegi eu safbwyntiau neu eu penderfyniadau.

## 9. People are told the impact of their contribution

Timely feedback is given to all participants about the views they expressed and the decisions or actions taken as a result; methods and form of feedback should take account of participants' preferences.

### Guidance notes:

- The key to motivating people to engage again is that they see the benefit and result from their contribution. Timely feedback is essential for participants to be able to see the results of their input.

## 9. Mae pobl yn cael gwybod beth yw effaith eu cyfraniad

Rhoddir adborth amserol i'r cyfranogwyr i gyd am y safbwyntiau a fynegwyd ganddynt a'r trafodaethau a'r camau gweithredu a gafwyd o ganlyniad; dylai dull a ffurf yr adborth roi ystyriaeth i hoffterau'r cyfranogwyr.

### Nodiadau cyfarwyddyd:

- Yr allwedd i gymell pobl i ddechrau ymgysylltu eto yw drwy iddynt weld manteision a chanlyniadau eu cyfraniad. Mae adborth amserol yn hanfodol er mwyn i'r cyfranogwyr allu gweld canlyniadau eu mewnbwn.

- Not every contribution will be acted on but explanation for decisions in response to participants' views can build trust that organisations at least listen and consider those views.
- Different participants have different needs and preferences for receiving feedback which should be taken into account – this links to overcoming barriers in principle 6.
- This principle refers to feedback to participants who have taken part in an engagement process, and to wider stakeholders. Feedback from people about services that are currently being delivered is a different issue and part of information gathering.
- Good feedback needs to be a mix of general information to all stakeholders about an engagement process and the results (e.g. via a general newsletter); but should also include more specific and perhaps more detailed feedback to the smaller number of active participants in the process (e.g. a summary to participants in a focus group or workshop).

- Ni weithredir ar bob cyfraniad ond gall yr eglurhad dros y penderfyniadau fel ymateb i safbwyntiau'r cyfranogwyr feithrin ymddiriedaeth bod sefydliadau'n gwrando o leiaf, ac yn ystyried y safbwyntiau hynny.
- Mae gan wahanol gyfranogwyr gwahanol anghenion a hoffterau ar gyfer derbyn adborth, a dylid eu hystyried – mae hyn yn cysylltu â goresgyn rhwystrau yn egwyddor 6.
- Mae'r egwyddor hon yn cyfeirio at adborth i gyfranogwyr sydd wedi cymryd rhan mewn proses ymgysylltu, ac i randdeiliaid ehangach. Mae adborth gan bobl am wasanaethau sy'n cael eu cyflwyno ar hyn o bryd yn fater gwahanol ac yn rhan o gasglu gwybodaeth.
- Mae'n rhaid i adborth da fod yn gymysgedd o wybodaeth gyffredinol i'r rhanddeiliaid i gyd am broses ymgysylltu a'r canlyniadau (e.e. drwy gyfrwng cylchlythyr cyffredinol); ond dylai hefyd gynnwys adborth mwy penodol, a manylach efallai, i'r nifer llai o gyfranogwyr a gymerodd ran yn y broses (e.e. crynodeb i gyfranogwyr mewn grŵp ffocws neu weithdy).

## 10. Learn and share lessons to improve the process of engagement

People's experience of the process of engagement should be monitored and evaluated to measure its success in engaging people and the effectiveness of their participation; lessons should be shared and applied in future engagements.

### Guidance notes:

- This principle is about the process of engagement itself and its effectiveness, but not the topic of the engagement directly and the results.
- The results for the issue will also need monitoring and evaluating as part of the usual planning, action and review cycle. Maybe this needs elaborating upon for those who may not have experience around this cycle?
- The evaluation should be made available to participants in an accessible and appropriate format. It may form the basis for a further stage of engagement to review and design the process and improve it for the future.

## 10. Dysgu a rhannu gwersi i wella'r broses o ymgysylltu

Dylid monitro a gwerthuso profiadau pobl o'r broses ymgysylltu er mwyn mesur ei llwyddiant o ran ymgysylltu pobl ac effeithiolrwydd eu cyfranogiad; dylid rhannu'r gwersi a ddysgir a'u defnyddio mewn ymgysylltu yn y dyfodol.

### Nodiadau cyfarwyddyd:

- Mae'r egwyddor hon yn ymwneud â'r broses ymgysylltu ei hun a'i heffeithiolrwydd, ond nid y pwnc ymgysylltu'n uniongyrchol, na'i ganlyniadau.
- Hefyd, bydd raid monitro a gwerthuso'r canlyniadau ar gyfer y mater fel rhan o'r cylch cynllunio, gweithredu ac adolygu arferol. Efallai bod angen ymhelaethu ar hyn ar gyfer y rhai nad ydynt wedi cael profiad perthnasol i'r cylch hwn?
- Dylid sicrhau bod y gwerthusiad ar gael i gyfranogwyr mewn fformat hwylus a phriodol. Gall fod yn sail ar gyfer cam ymgysylltu pellach er mwyn adolygu a chynllunio'r broses, a'i gwella ar gyfer y dyfodol.

## Definitions:

**These are working definitions for the purposes of these Principles. It is recognised that different organisations will use a variety of terminology to mean similar things.**

**Engagement:** An active and participative process by which people can influence and shape policy and services that includes a wide range of different methods and techniques.

**Consultation:** A formal process by which policy makers and service providers ask for the views of interested groups and individuals.

**Participation:** People being actively involved with policy makers and service planners from an early stage of policy and service planning and review.

Produced under the guidance of the Participation Cymru Advisory Panel
March 2011
Endorsed by the First Minister, The Right Hon. Carwyn Jones AM on behalf of the Welsh Assembly Government

### Organisations on the Advisory Panel:

Amgueddfa Cymru – National Museum Wales
Association of Chief Police Officers in Wales
Countryside Council for Wales
Her Majesty's Courts Service
National Leadership and Innovation Agency for Healthcare
One Voice Wales
Participation Unit, Save the Children Wales
Tenants Participation Advisory Service Cymru
Wales Association of County Voluntary Councils
Wales Audit Office
Wales Council for Voluntary Action
Welsh Assembly Government
Welsh Local Government Association
Welsh NHS Confederation

## Diffiniadau:

**Dyma ddiffiniadau gweithredol at ddibenion yr Egwyddorion hyn. Cydnabyddir y bydd gwahanol sefydliadau'n defnyddio terminoleg amrywiol i olygu pethau tebyg.**

**Ymgysylltu:** Proses weithredol a chyfranogol a ddefnyddir gan bobl er mwyn siapio a dylanwadu ar bolisïau a gwasanaethau sy'n cynnwys amrywiaeth eang o wahanol ddulliau a thechnegau.

**Ymgynghoriad:** Proses ffurfiol a ddefnyddir gan lunwyr polisïau a darparwyr gwasanaethau i holi am farn grwpiau ac unigolion â diddordeb.

**Cyfranogiad:** Pobl sy'n ymwneud â llunwyr polisïau a chynllunwyr gwasanaethau o gyfnod cynnar yn y gwaith o gynllunio ac adolygu polisïau a gwasanaethau.

Wedi eu cynhyrchu o dan arweiniad Panel Cynghori Cyfranogaeth
Cymru Mawrth 2011.
Wedi eu cymeradwyo gan Brif Weinidog Cymru, Y Gwir Anrhydeddus
Carwyn Jones AC ar ran Llywodraeth Cynulliad Cymru.
Mae arweiniad pellach ar yr Egwyddorion Cenedlaethol ar gael o www.participationcymru.org.uk
Mawrth 2011

### Mudiadau ar y Panel Cynghori:

Amgueddfa Cymru
Asiantaeth Genedlaethol Arwain ac Arloesi mewn Gofal Iechyd
Conffederasiwn GIG Cymru
Cymdeithas Cynghorau Gwirfoddol Sirol Cymru
Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
Cymdeithas Prif Swyddogion yr Heddlu
Cyngor Cefn Gwlad Cymru
Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru
Gwasanaeth Cynghori ar Gyfranogiad Tenantiaid Cymru
Gwasanaeth Llysoedd Ei Mawrhydi
Llywodraeth Cynulliad Cymru
Swyddfa Archwilio Cymru
Uned Cyfranogaeth Achub y Plant Cymru
Un Llais Cymru